


RHEOLI HEDFAN

Roedd peilotiaid yn defnyddio cyfres o fflapiau symudol a oedd yn cael eu hadnabod fel arwynebau rheoli i lywio awyren. Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn gwneud tri math o arwynebau rheoli i'ch gleider er mwyn gweld sut mae modd eu defnyddio i newid cyfeiriad awyren.

CYFEIRIAD AWYREN

Gall peilot gylchdroi awyren o gwmpas tair echelin (wedi'u dangos fel llinellau dotiog). Mae cylchdro o gwmpas yr echelin blaen-i-ôl yn cael ei alw'n rholiad, cylchdro o gwmpas echelin ochr-i-ochr yn cael ei alw'n ogwyddiad a chylchdro o gwmpas yr echelin fertigol yn wyriad.



ARWYNEBAU RHEOLI

Mae tri math o arwynebau rheoli'n cael eu dangos yn y diagram (mewn llwyd). Mae'r arwynebau rheoli yn yr ôl-blân yn cael eu galw'n godwyr. Mae'r arwynebau rheoli yn yr adenydd yn cael eu galw'n isadenydd a'r un yn yr asgell yn llyw.

BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD

1. Ychwanegwch dapiau bach o dâp gludiog, un bob ochr i'r ôl-blân i wneud codwyr i'ch gleider. Plygwch nhw i fyny i weld sut mae hyn yn newid gogwydd eich gleider; gwnewch hyn eto gyda'r tabiau wedi'u plygu i lawr.
A allwch esbonio beth sy'n digwydd i'r grym pen ôl yn y ddau achos?
2. Ychwanegwch dapiau ar ymyl ôl y ddwy adain, yn agos i'w blaen, i wneud isadenydd i'ch gleider. Trowch un i fyny mymryn, a'r llall i lawr.

- Sut mae hyn yn newid hediad y gleider?
A allwch esbonio beth sy'n digwydd i'r grym codi ar bob adain?
3. Yn olaf, rhowch un tab ar gefn yr asgell, fel y gellir ei blygu i un ochr neu'r llall.
Llyw yw'r tab hwn. Gellir ei ddefnyddio ar yr un pryd â'r isadenydd i droi'r gleider.
Arbrofwch trwy ddefnyddio'r llyw a'r isadenydd gyda'i gilydd.
I ba gyfeiriad mae'n rhaid i'r llyw bwyntio i droi'r gleider i'r chwith?